# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

**RHAN 2**

COFRESTRU A RHEOLEIDDIO DARPARWYR ADDYSG DRYDYDDOL

**PENNOD 2**

SICRHAU ANSAWDD A GWELLA ANSAWDD

*Swyddogaethau sicrhau ansawdd cyffredinol*

**50 Fframweithiau sicrhau ansawdd**

(1) Caiff y Comisiwn gyhoeddi fframweithiau sicrhau ansawdd.

(2) Mae fframwaith sicrhau ansawdd yn ddogfen sy'n nodi canllawiau a gwybodaeth am faterion polisi ac arfer ynghylch—

(a) meini prawf ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol;

(b) prosesau ar gyfer asesu ansawdd addysg drydyddol;

(c) rolau a chyfrifoldebau—

(i) personau sy'n asesu ansawdd addysg drydyddol,

(ii) darparwyr addysg drydyddol o ran ansawdd addysg drydyddol, a

(iii) unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol o ran ansawdd addysg drydyddol;

(d) ystyried barn dysgwyr ynghylch ansawdd yr addysg drydyddol a gânt;

(e) datblygiad proffesiynol aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol;

(f) unrhyw fater arall y mae'r Comisiwn yn ystyried ei fod yn berthnasol i sicrhau ansawdd addysg drydyddol.

(3) Caiff y Comisiwn ddiwygio, disodli neu dynnu'n ôl unrhyw fframwaith sicrhau ansawdd a gyhoeddir o dan yr adran hon.

(4) Cyn cyhoeddi fframwaith (neu unrhyw fframwaith diwygiedig) neu dynnu fframwaith yn ôl o dan yr adran hon, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori—

(a) â phob darparwr cofrestredig,

(b) â Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru ("y Prif Arolygydd"), ac

(c) ag unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i'r personau a grybwyllir yn is-adran (6), i'r graddau y mae'n berthnasol i arfer eu swyddogaethau, roi sylw i fframwaith sicrhau ansawdd a gyhoeddir o dan yr adran hon.

(6) Y personau yw—

(a) y Comisiwn;

(b) y Prif Arolygydd;

(c) corff dynodedig (gweler adran 56).

(7) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy'n effeithio ar bwerau eraill y Comisiwn i ddyroddi canllawiau.

(8) Mae i "aelodau o'r gweithlu addysg drydyddol" yr un ystyr ag yn adran 5.